# YMWELIADAU Â SAFLEOEDD CYNLLUNIO

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Ionawr, 2016

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd W T Hughes (Cadeirydd)<br><br>Cynghorwyr Lewis Davies, Jeff Evans, John Griffith, Kenneth Hughes, Victor Hughes. |
| **WRTH LAW:** | Arweinydd Tîm Rheoli Datblygu (NJ)<br>Uwch Beiriannydd (Priffyrdd a Rheoli Datblygu) (EDJ) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorydd Vaughan Hughes |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Aelodau Lleol: Y Cynghorwyr Jim Evans, R.Meirion Jones, Alun Mummery (cais 1); Y Cynghorydd Trefor Lloyd Hughes (cais 3) |

---

**1. 31C431 - Cais llawn i newid y defnydd a wneir o adeilad o anedd i feithrinfa yn Borthwen, Ffordd Penmynydd, Llanfairpwll**

Anerchwyd yr Aelodau gan y Cynghorydd Alun Mummery i gadarnhau ei fod wedi galw'r cais i mewn fel Aelod Lleol a'i fod wedi gofyn am ymweliad â'r safle. Fodd bynnag, ni chymerodd unrhyw ran bellach.

Eglurodd y Swyddog y cynnig a chadarnhaodd nifer y staff y rhagwelir y byddant yn gweithio yno a'r oriau agor. Gwelodd yr Aelodau y lle parcio arfaethedig ar y safle a'r rhwydwaith ffyrdd yn yr ardal. Cadarnhaodd y Swyddog bod y lle parcio o flaen yr anheddau yn Rhos y Gad yn rhan o'r briffordd gyhoeddus ac nad oes unrhyw gyfyngiad ar y defnydd y gellir ei wneud ohono. Cadarnhawyd natur y pryderon a godwyd mewn perthynas â'r cais yn ogystal â'r sylwadau a gafwyd yn cefnogi'r cais.

**2. 36C344 - Cais amlinellol ar gyfer codi annedd ynghyd â manylion llawn y fynedfa i gerbydau ac ail-leoli'r fynedfa i'r cae ar dir ger Ysgol Gynradd Henblas, Llangristiolus.**

Dangoswyd lluniadau'r cais i'r aelodau a chawsant gyfle i edrych ar y safle yn ei gyd-destun. Cadarnhaodd y Swyddog Priffyrdd bod y lleiniau gweledeadd a ddangosir ar y lluniadau yn cydymffurfio â safonau perthnasol. Nodwyd lleoliad a lled y fynedfa amaethyddol y bwriedir ei haddasu.

**3. 19C1038F - Cais llawn ar gyfer codi annedd ynghyd â chreu mynedfa i gerbydau ar dir yn Ffordd Ty'n Pwll, Caergybi**

Dangoswyd lluniadau'r cais i'r aelodau. Dangoswyd y llwybr diogel i'r ysgol yng nghyd-destun y safle a'r ysgolion cynradd lleol. Dangoswyd maint y droedffordd gyhoeddus ar Ffordd Ty'n Pwll a'r rhan o'r ffordd nad oedd troedffordd arni. Fel Aelod Lleol, tynnodd y Cynghorydd Trefor Lloyd Hughes sylw at wal breifat lle roedd y droedffordd yn gorffen. Cadarnhawyd natur y pryderon lleol.

**Y Cynghorydd W T Hughes**
**Cadeirydd**